

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Cowell Street Skin and Hair Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 19 Ebrill 2022

Dyddiad cyhoeddi: 20 Gorffennaf 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
  - Ansawdd profiad y claf
  - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
  - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cowell Street Skin and Hair Company ar 19 Ebrill 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad. O ystyried nad oedd y clinig wedi dechrau ei driniaethau trawsblannu gwallt yn llawn eto, roedd ffocws yr arolygiad hwn ar y triniaethau laser a thriniaethau golau pwls dwys.

Mae'r adroddiad llawn hwn wedi'i lunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu triniaethau i'r cleifion mewn amgylchedd croesawgar a modern. Roedd y rheolwr cofrestredig yn awyddus i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad o safon ac adlewyrchwyd hyn yn adborth y cleifion.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd croesawgar a modern
- Adborth cadarnhaol gan y cleifion

### Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cynnal a chadw a sicrhau diogelwch parhaus yr offer laser. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon dda, a oedd yn cynnwys darpariaethau gwybodaeth, ymgynghori a chydsyniad addas.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Agweddau ar drefniadau meddygol brys
- Amllder adolygu protocolau triniaeth

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau diogelwch a chynnal a chadw laser addas
- Trefniadau atal a rheoli heintiau a glanhau addas
- Cadw cofnodion cleifion yn dda

### Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar y claf ac yn frwdfrydig wrth ddarparu triniaethau, ac mae'n awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth gyda gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n addas.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid adolygu polisïau a gweithdrefnau bob blwyddyn a'u hadolygu i sicrhau eu cadernid
- Dylai'r staff lofnodi polisïau a gweithdrefnau i gadarnhau eu bod yn eu deall.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolaeth frwdfrydig ac ymgysylltiedig.

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

### 3. Yr hyn a ganfuom

## Ansawdd profiad y claf

#### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 16 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan gleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

*"Gwasanaeth ardderchog"*

*"Gwasanaeth anhygoel. Dwi'n argymhell Cowell Street Clinic yn fawr"*

*"Cyfeillgar iawn a hawdd mynd ato"*

#### Diogelu a gwella iechyd

Gofynnwyd yn gywir i'r cleifion ddarparu hanes meddygol cynhwysfawr cyn eu triniaeth gychwynnol ac eto cyn unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau bod cofnodion hanes meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf a'r gweithredwr laser. Dywedodd pob claf wrthym y cymerwyd eu hanes meddygol cyn triniaeth.

#### Urddas a pharch

Dywedwyd wrthym fod ymgynghoriadau a thriniaethau cleifion bob amser yn cael eu cynnal yn yr ystafell driniaeth briodol. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael amser i newid cyn ac ar ôl triniaeth, a gwelsom fod arwyddion priodol yn cael eu harddangos ar y drysau er mwyn sicrhau preifatrwydd a diogelwch.

Dywedwyd wrthym y gall y cleifion fynd â hebryngwr gyda nhw ar gyfer eu hymgynghoriad, ond ni chaniateir iddo aros yn yr ystafell driniaeth tra bod triniaethau'n cael eu darparu. Roedd pob claf yn cytuno'n gryf eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff y gwasanaeth.

#### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gwybodaeth addas i gleifion ar gael i'r cleifion ei darllen er mwyn eu helpu i benderfynu ar eu hopsiynau triniaeth a manylion am y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn rhoi pwyslais ar ddarparu ymgynghoriad ystyrlon i'r cleifion cyn i driniaethau gael eu darparu. Roedd pob claf yn cytuno'n

gryf bod y staff yn egluro'r hyn yr oeddent yn ei wneud trwy gydol y driniaeth a bod y staff yn gwrando arnynt.

### **Gwybodaeth a chydsyniad cleifion**

Gwelsom fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb, a oedd yn cynnwys trafodaeth am risgiau, buddion a chanlyniadau tebygol y driniaeth a ddymunir.

Roedd y ffurflen gydsynio mewn fformat addas a gwnaethom gadarnhau bod cydsyniad yn cael ei gymryd yn gyson cyn y driniaeth gychwynnol a chyn unrhyw driniaethau dilynol. Gwelsom fod cyngor ôl-ofal yn cael ei ddarparu i'r cleifion yn dilyn eu triniaeth.

Dywedodd pob claf wrthym eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunent mewn unrhyw drafodaethau am eu triniaeth.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cesglir hanes meddygol y cleifion i sicrhau addasrwydd y driniaeth a ddewiswyd.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion pum claf a chanfod dystiolaeth bod cofnodion o safon dda yn cael eu cadw, a oedd yn cwmpasu pob rhan o daith y claf. Roedd hyn yn cynnwys manylion yr ymgynghoriad, cydsyniad gan gynnwys cydsyniad ychwanegol mewn apwyntiadau dilynol, a risgiau a chanlyniadau tebygol y driniaeth a ddewiswyd.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli dros sawl llawr a allai gyfyngu ar allu rhai cleifion i gael mynediad at y gwasanaeth. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai'n argymhell clinig arall pe bai angen.

Pwysleisiodd y rheolwr cofrestredig fod triniaethau yn hygyrch ac yn agored i bob darpar glaf. Gwnaethom nodi bod hyfforddiant cydraddoldeb yn cael ei ddarparu ar-lein i'r staff a darparwyd enghraifft gadarnhaol i ni lle'r oedd triniaeth yn cael ei darparu i glaf ag anghenion ychwanegol, ac y darparwyd yn llawn ar eu cyfer.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn gwyno briodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion hyd yn hyn, ond disgrifiodd fecanwaith priodol i ni gofnodi cwynion ffurfiol (ysgrifenedig a llafar) a chwynion anffurfiol. Pwysleisiwyd yr angen i geisio adborth gan y cleifion yn ystod y cam ymgynghori ac eto cyn triniaethau pellach er mwyn rheoli disgwyliadau cleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod tystysgrif diogelwch nwy blynyddol ar gael a'i bod yn gyfredol. Roedd gwiriad gwifrau bob pum mlynedd wedi'i gwblhau i sicrhau bod sticeri diogelwch trydanol a phrawf dyfeisiau cludadwy yn weladwy ac yn gyfredol ar bob dyfais a welsom.

Gwelsom fod diffoddwyr tân wedi cael eu hadolygu o fewn y 12 mis diwethaf a bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant warden tân. Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf ac nid oedd unrhyw gamau pellach wedi'u nodi, wrth aros i waith adeiladu gael ei gyflawni i lefel uchaf y clinig.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf a bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y safle.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod staff meddygol sy'n gweithio yn y clinig ar sail sesiynol wedi'u hyfforddi i gyflawni triniaeth cynnal bywyd lefel uwch. Roedd mynediad at ocsigen a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn ystafell driniaeth y clinig gwallt. Rydym yn argymhell bod y polisi'n cael ei ddiweddarau i sicrhau bod y pecyn brys yn cael ei wirio bob wythnos a bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi'n briodol.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob rhan o'r clinig i'w gweld yn lân, yn fodern ac yn ddeniadol. Cytunodd pob claf fod y lleoliad yn lân iawn a bod mesurau COVID-19 yn cael eu dilyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y caiff trefniadau rheoli heintiau eu rheoli cyn, yn ystod ac ar ôl apwyntiadau cleifion. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio menig bob amser, mesurau hylendid dwylo priodol a diheintio darnau llaw peiriant laser a soffas cleifion ar ôl eu defnyddio.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod newidiadau penodol wedi'u gwneud mewn ymateb i COVID-19, gan gynnwys defnyddio masgiau, darparu triniaethau i un cleient

ar y tro ar unrhyw adeg benodol a chwestiynau sgrinio symptomau cyn darparu triniaeth. Mae polisi COVID-19 cryno wedi'i baratoi i ategu'r polisi rheoli heintiau ehangach. Byddem yn cynghori bod y polisi a gweithdrefn atal a rheoli heintiau yn cael eu hadolygu, gan y cafodd y rhain eu diweddarau ddiwethaf yn 2017.

Roedd trefniadau gwastraff clinigol priodol ar waith drwy gontract gyda darparwr allanol.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed**

Gwelsom fod gweithdrefn ddiogelu glir ar waith i'r staff ei dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r awdurdod lleol ac roedd y staff wedi'u hyfforddi i lefel briodol.

Ni ddarperir unrhyw driniaethau i blant a gofynnir i'r cleifion beidio â dod â phlant i'w hapwyntiad.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom ystyried sut roedd y cyfarpar laser a'r dogfennau cysylltiedig wedi'u cynnal drwy gydol y pandemig. Canfuom y canlynol:

- Penodwyd cynghorydd amddiffyn rhag laserau i ddarparu gwasanaeth ac roedd y rheolwr cofrestredig yn gwybod sut y byddai'n cysylltu ag ef pe bai angen cyngor ar ddefnyddio'r offer laser yn ddiogel
- Roedd rheolau lleol wedi'u hadolygu gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau o fewn y 12 mis diwethaf i gadarnhau eu haddasrwydd parhaus
- Roedd offer laser wedi cael eu cynnal a'u cadw'n ddiweddar a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod unrhyw bryderon ynghylch offer yn cael eu trosglwyddo i'r cwmni cynnal a chadw.

Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i gyfeirio at ei amodau cofrestru AGIC i sicrhau bod yr holl ddogfennau yn cael eu hadolygu a bod cadarnhad o hyn yn cael ei dderbyn ar yr adegau gofynnol.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth<sup>1</sup> a hyfforddiant gwneuthurwr i ddefnyddio'r peiriannau laser. Roedd hyn yn cynnwys ardystiad laser a golau pwls dwys lefel 4.

---

<sup>1</sup> Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn darparu sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser a golau pwls dwys yn ddiogel ac yn effeithiol

Gwnaethom adolygu'r protocolau triniaeth a chanfod eu bod yn gyfredol. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y rhain yn cael eu hadolygu bob tair blynedd, yn hytrach na'r 10 mlynedd a nodwyd.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i bob claf a gweithredwr. Roedd y cyfarpar diogelu llygaid wedi'i labelu'n glir ar gyfer peiriant penodol ac roedd mewn cyflwr digonol.

Roedd cloeon wedi'u gosod ar ddrysau'r ystafelloedd triniaeth i sicrhau urddas a diogelwch y cleifion wrth i offer laser gael ei ddefnyddio. Roedd arwyddion priodol ar ddrws pob ystafell driniaeth i atgoffa'r staff a'r ymwelwyr.

Canfuom fod angen prawf croen o leiaf 48 awr cyn darparu triniaeth. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hyn yn ofynnol ar gyfer pob triniaeth a gwnaethom gadarnhau bod hyn wedi'i gofnodi yng nghofnod y claf. Cadarnhaodd pob claf eu bod wedi cael y prawf hwn cyn derbyn eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth ôl-ofal ysgrifenedig ar gael i'r cleifion, a dywedodd pob claf wrthym eu bod yn cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint/cynorthwyo gwella, a'u bod yn cael canllawiau clir ar sut i wirio eu hunain am arwyddion a symptomau haint.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Dangosodd y rheolwr cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r triniaethau a ddarperir. Roeddent yn frwdfrydig am ei faes ymarfer ac yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth gyda chymorth cydweithwyr clinigol a'r staff a gyflogwyd yn ddiweddar.

### **Rheoli cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth o gadw cofnodion da. Roedd y pum cofnod a adolygwyd yn ddigon manwl ac yn cael eu cadw'n briodol ar gyfer y cleifion newydd a'r cleifion a oedd yn dychwelyd mewn modd clir a chyson. Roedd copïau caled o'r ffeiliau'n cael eu cadw'n ddiogel ar y safle.

## **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth**

### **Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Y rheolwr cofrestredig yw'r unig weithredwr laser ar gyfer y gwasanaeth ar adeg yr arolygiad. Mae meddyg sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cael ei gyflogi gan y gwasanaeth ar sail sesiynol i ddatblygu'r ddarpariaeth trawsblannu gwallt ac i'w chyflawni yn y pen draw.

Roedd gan y gwasanaeth nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom adolygu sampl o'r rhain a chanfod bod angen adolygiad blynyddol ar rai ohonynt, ynghyd â manylion ychwanegol i sicrhau eu cadernid, neu fod angen i'r staff eu llofnodi i gadarnhau eu hymwybyddiaeth a'u bod yn eu deall.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y caiff cyfarfodydd staff eu cynnal unwaith y bydd y tîm staff wedi datblygu a bod grŵp WhatsApp o staff yn cael ei ddefnyddio.

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn bresennol a'i fod yn gyfredol.

### **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig na fu unrhyw bryderon na digwyddiadau hyd yn hyn. Disgrifiodd eu proses gwyno a gwelsom fod y weithdrefn yn briodol, a bod AGIC wedi'i rhestru fel pwynt cyswllt ychwanegol. Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran hysbysu AGIC am unrhyw ddigwyddiadau difrifol<sup>2</sup>.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Gwnaethom nodi bod y gwasanaeth wedi cyflogi aelodau newydd o staff yn ddiweddar a'i fod yn y broses o ddatblygu ei weithlu.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi darparu llwyfan hyfforddiant ar-lein i'r staff i ddatblygu eu sgiliau mewn nifer o feysydd cydymffurfio allweddol, gwasanaeth cwsmeriaid a chyfreithiol. Darparwyd hyfforddiant penodol i'r staff allu darparu triniaethau laser a golau pwls dwys yn y pen draw.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd polisi recriwtio a sefydlu staff ar waith a gwnaethom gadarnhau bod gwiriadau cyn cyflogi priodol wedi'u cynnal o ran y staff.

Gwelsom dystiolaeth fod gan yr holl weithredwyr a staff meddygol a gyflogir gan y gwasanaeth dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

Ar gyfer y staff meddygol, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn gyfrifol am sicrhau cofrestriad proffesiynol parhaus y grŵp hwn o staff. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff meddygol ar y gofrestr broffesiynol ar adeg yr arolygiad.

---

<sup>2</sup> [www.agic.org.uk/rhoi-gwybod-i-ni-am-ddigwyddiad](http://www.agic.org.uk/rhoi-gwybod-i-ni-am-ddigwyddiad)

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

## Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

[illegible]

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Cowell Street Skin and Hair Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 19 Ebrill 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella                      | Safon/Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--------------------------------------------------|----------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio |                |                                   |                  |          |
|                                                  |                |                                   |                  |          |
|                                                  |                |                                   |                  |          |
|                                                  |                |                                   |                  |          |

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cowell Street Skin and Hair Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 19 Ebrill 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella                                                                                                                                                                            | Safon/Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                            | Swyddog cyfrifol | Amserlen      |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|---------------|
| Rydym yn argymhell bod y polisi brys meddygol yn cael ei ddiweddarau i sicrhau bod y pecyn brys yn cael ei wirio bob wythnos a bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi'n briodol.                       |                | Mae'r polisi cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys wedi'i ddiweddarau o wiriadau misol i wiriadau wythnosol | P Hart           | Ar unwaith    |
| Rydym yn argymhell bod y protocolau triniaeth yn cael eu hadolygu bob tair blynedd, yn hytrach na'r deng mlynedd a nodir.                                                                              |                | Mae protocolau triniaeth wedi'u diweddarau i'w hadolygu bob tair blynedd                                     | P Hart           | Ar unwaith    |
| Rydym yn argymhell bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob polisi yn cynnwys digon o fanylion i sicrhau cadernid a bod yr holl staff |                | Staff i adolygu'r holl bolisiau a gweithdrefnau yn flynyddol a'u llofnodi i gadarnhau eu dealltwriaeth       | P Hart           | O fewn un mis |

|                                                                                 |   |                                                                     |        |             |
|---------------------------------------------------------------------------------|---|---------------------------------------------------------------------|--------|-------------|
| yn llofnodi'r rhain i gadarnhau eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth.            |   |                                                                     |        |             |
| Dylai'r gwasanaeth nodi'r sylwadau cynghorol a restrir yng nghorff yr adroddiad | - | -Rheolwr cofrestredig i weithredu ar yr holl gynghorion yn brydlon. | P Hart | -Ar unwaith |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): P Hart  
 Swydd: Rheolwr cofrestredig  
 Dyddiad: 23/05/2022